

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(FFIN SIROL SIR BENFRO/CEREDIGION GER
ABERTEIFI, CEREDIGION I BONT AR DDYFI,
POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS
DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng man i'r de o Aberteifi, Ceredigion a Phont ar Ddyfi, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ffin sirol Sir Benfro/Ceredigion, yn gyfagos i'r annedd o'r enw Gamallt, man i'r de o Aberteifi hyd at ffin sirol Powys/Gwynedd wrth Bont ar Ddyfi, i'r gogledd o Fachynlleth, Powys. Disgwylir y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys yn ystod gwaith confoi a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 27 Chwefror 2025. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2025 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD
(PEMBROKESHIRE/CEREDIGION COUNTY
BOUNDARY, NEAR CARDIGAN,
CEREDIGION TO DYFI BRIDGE, POWYS)
(TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO
OVERTAKING) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road between a point south of Cardigan, Ceredigion and Dyfi Bridge, Powys.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A487 trunk road that extends from the Pembrokeshire/Ceredigion county boundary, adjacent to the dwelling known as Gamallt, south of Cardigan to the Powys/Gwynedd county boundary at Dyfi Bridge, north of Machynlleth, Powys. The 10 mph speed limit is expected to apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 27 February 2025. The temporary restrictions and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate on intermittently from 08:00 hours on 27 February 2025 for a maximum duration of 18 months. Notice of all works during this period will be displayed before they start.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government